# CONTRACT CYTUNDEB

**CYMERADWYAETH CORFF O BERSONAU**
**AR GYFER EITHRIAD RHAG TRWYDDEDAU PLANT**
**A.37(3)(b) Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963**

| | |
|---|---|
| **Enw'r Sefydliad** | |
| **Cyfeiriad y Sefydliad (gan gynnwys Cod Post)** | |
| **Rhif Ffôn** | |
| **Cyfeiriad E-bost** | |
| **Enw a Chyfeiriad y Sawl sy'n Gyfrifol am y Cynhyrchiad** | |
| **Swydd o fewn y Sefydliad** | |

Mae'r sefydliad uchod wedi cyflwyno cais i **Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (yr Awdurdod Lleol)** i gael cymeradwyaeth fel Corff o Bersonau o dan a.37 Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963. Os bydd y sefydliad yn cael ei gymeradwyo, bydd yn cael ei eithrio rhag yr angen i wneud cais am drwyddedau unigol er mwyn i blant berfformio o fewn ffin Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

Os caiff ei gymeradwyo, mae'r sefydliad yn cytuno i gadw at yr amodau canlynol: -

1. Ni roddir taliad i'r plentyn, nac i unrhyw un arall ar ran y plentyn, ac eithrio wrth dalu costau.
2. Ni fydd unrhyw blentyn yn absennol o'r ysgol i gymryd rhan mewn perfformiad a roddir o dan gymeradwyaeth y Corff o Bersonau.
3. Bydd y sefydliad yn rhoi manylion pob perfformiad/ymarfer i'r Awdurdod Lleol gan gynnwys y dyddiadau, yr amseroedd a'r lleoliad, ynghyd ag enw llawn, dyddiad geni a chyfeiriad pob plentyn sy'n cymryd rhan, a hynny o leiaf 21 diwrnod cyn y perfformiad cyntaf, oni bai fod yr Awdurdod Lleol wedi cytuno i gyfnod rhybudd byrrach. Rhaid dweud wrth yr Awdurdod Lleol am unrhyw newidiadau i amserlen y perfformiadau, ymlaen llaw. Bydd y sefydliad hefyd yn rhoi enw a manylion cyswllt yr unigolyn arweiniol sy'n gyfrifol am bob perfformiad.
4. Mae'r sefydliad yn cytuno i gydymffurfio â Rheoliad 11 a Rheoliadau 15 i 29 Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Lloegr) 2014.
5. Rhaid cynnal asesiad risg ar gyfer pob man perfformio.
6. Mae swyddog cymorth cyntaf yn bresennol ym mhob man perfformio.
7. Bydd y sefydliad yn sicrhau bod nifer briodol o warchodwyr a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Lleol (gweler Rheoliad 15) yn bresennol i ofalu am y plant sy'n cymryd rhan, gan roi sylw penodol i'w rhyw a'u hoedran, a sicrhau bod pob plentyn yn cael ei oruchwylio ar bob adeg. *(dileer fel sy'n briodol)*
8. Bydd y sefydliad yn sicrhau bod nifer briodol o oedolion addas yn bresennol i ofalu am y plant sy'n cymryd rhan, gan roi sylw penodol i'w rhyw a'u hoedran, a sicrhau bod pob plentyn yn cael ei oruchwylio ar bob adeg. *(dileer fel sy'n briodol)*
9. Mae'r sefydliad yn cytuno y gall unrhyw un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Lleol gael mynediad anghyfyngedig tra bod unrhyw ymarfer mewn gwisgoedd neu ymarfer

technegol neu unrhyw berfformiad ar y gweill, mewn unrhyw leoliad y mae'r sefydliad yn ei ddefnyddio at ddibenion o'r fath.

10. Bydd y sefydliad yn rhoi copi o'r Polisi Amddiffyn Plant ysgrifenedig i'r Awdurdod Lleol.
11. Bydd y sefydliad yn cael datganiad wedi'i lofnodi gan riant pob plentyn i ddweud bod eu plentyn yn iach.
12. Bydd y sefydliad yn sicrhau bod rhestr o fanylion cyswllt mewn argyfwng, ar gyfer pob plentyn, gan gynnwys unrhyw faterion meddygol neu anghenion ychwanegol, ar gael yn y man perfformio.
13. Bydd y sefydliad yn sicrhau bod taflenni yn cael eu llenwi ar gyfer pob perfformiad i nodi bod plant yn cyrraedd ac yn gadael, ynghyd â ffurflenni cofnod dyddiol.

**CONTRACT CYTUNDEB**

**Enw'r Sefydliad:** ______________________________________________

**Mae methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r cytundebau neu amodau uchod yn debygol o olygu bod yr Awdurdod Lleol yn diddymu'r eithriad Corff o Bersonau ar unwaith.**

Mae methu â chydymffurfio â Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963 a.37 a Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Lloegr) 2014 yn drosedd, ac os penderfynir bod y drosedd wedi digwydd y gosb uchaf yw £1,000 neu dri mis yn y carchar neu'r ddwy, am bob trosedd.

Wrth lofnodi'r datganiad hwn, rydych yn cytuno i'r amodau a thelerau uchod.

Llofnod ______________________________________________________

Enw mewn Llythrennau Bras _____________________________________

Swydd o fewn y Sefydliad ______________________________________

Rhif Ffôn. ___________________________________________________

Dyddiad _____________________________________________________